



**beibl.net**

Cyfeithiad beibl.net  
Hawlfraint © Gobaith i Gymru 2015  
Yr argraffiad hwn © 2015 Cymdeithas y Beibl

Cyhoeddir gan Gymdeithas y Beibl gyda chaniatâd

Mae'r cyhoeddiad hwn yn cynnwys mapiau o'r ESV® Study Bible, English Standard Version® (ESV®) Hawlfraint © 2008 gan Crossway, gwasanaeth cyhoeddi y Good News Publishers. Mae'r mapiau sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn wedi eu hatgynhyrchu gyda chaniatâd Crossway. Gwaherddir atgynhyrchu'r mapiau hyn heb ganiatâd. Mae'r nodau masnach ESV® a English Standard Version® yn eiddo i Good News Publishers ac wedi eu cofrestru yn Unol Daleithiau America.

Mae'r Calendrau Beiblaidd ac Amaethyddol wedi eu haddasu o'r King James Anniversary Edition © 2011 Cymdeithas y Beibl. Y calendrau gwreiddiol wedi eu llunio gan Andrew Bosanquet.

Argaffwaith a chysodi gan Bible Society Resources Ltd,  
Is-gwmni sy'n berchen i Gymdeithas y Beibl  
Trefnwyd y cynhyrchiad gan Bible Society Resources Ltd

Dyluniad clawr gan Mike Leach Creative

ISBN 978-0-564-03327-0  
Ewch i: [cymdeithasybeibl.org.uk](http://cymdeithasybeibl.org.uk)  
[www.beibl.net](http://www.beibl.net)  
[biblesresources.org.uk/bibles/welsh-bibles](http://biblesresources.org.uk/bibles/welsh-bibles)

BNET/053/2015/5M  
Argraffwyd yn Tsieina

# Cynnwys

Llyfrau'r Beibl yn nhrefn yr Wyddor .....	iv
Rhagair .....	v
Darllen y Beibl: Ble mae dechrau? .....	vi
Ble i droi am help .....	viii

## | Yr Hen Destament

Genesis .....	1
Exodus .....	55
Leifticus .....	100
Numeri .....	130
Deuteronomium .....	174
Josua .....	215
Barnwyr .....	241
Ruth .....	268
1 Samuel .....	272
2 Samuel .....	306
1 Brenhinoedd .....	337
2 Brenhinoedd .....	370
1 Cronicl .....	404
2 Cronicl .....	438
Esra .....	475
Nehemeia .....	487
Esther .....	505
Job .....	513
Salmau .....	563
Diarhebion .....	700
Pregethwr .....	745
Caniad Solomon .....	758
Eseia .....	769
Jeremeia .....	877
Galarnad .....	974
Eseciel .....	986
Daniel .....	1044
Hosea .....	1064
Joel .....	1081
Amos .....	1088
Obadeia .....	1102
Jona .....	1105
Micha .....	1108
Nahum .....	1119
Habacuc .....	1124

Seffaneia .....	1129
Haggai .....	1135
Sechareia .....	1138
Malachi .....	1151

## | Yr Testament Newydd

Mathew .....	1159
Marc .....	1205
Luc .....	1234
Ioan .....	1282
Actau .....	1316
Rhufeiniaid .....	1357
1 Corinthiaid .....	1376
2 Corinthiaid .....	1393
Galatiaid .....	1404
Effesiaid .....	1411
Philipiaid .....	1417
Colosiaid .....	1422
1 Thesaloniaid .....	1426
2 Thesaloniaid .....	1430
1 Timotheus .....	1433
2 Timotheus .....	1438
Titus .....	1442
Philemon .....	1445
Hebreaid .....	1446
Iago .....	1461
1 Pedr .....	1466
2 Pedr .....	1472
1 Ioan .....	1475
2 Ioan .....	1480
3 Ioan .....	1481
Jwdas .....	1482
Datguddiad .....	1484

Geirfa .....	1507
Amserlin y Beibl .....	1514
Gwyliau Israel .....	1516
Y Calendr Hebreig .....	1518
Y Calendr Amaethyddol .....	1519
Aberthau ac Offrymau .....	1520
Mynegair .....	1521
Mapiau .....	1545

# Rhagair

Ers lansio'r Testament Newydd ar y We ar Ddydd Gŵyl Dewi 2002, mae **beibl.net** wedi helpu llu o bobl ifanc, a rhai sy'n hŷn, i ddarllen a phrofi'r Beibl mewn iaith maen nhw'n ei chael yn haws i'w deall.

Ymgais ydy **beibl.net** i gyflwyno neges y Beibl mewn Cymraeg llafar syml. Y bwriad oedd helpu pobl i ddeall ei gynnwys yn well – pobl sydd yn gyfarwydd â'r Beibl ac eraill sydd efallai erioed wedi ei ddarllen o'r blaen. Fwriadwyd erioed iddo fod yn llenyddiaeth safonol. Fydd yr iaith ynddo ddim at ddant pawb, a falle y bydd rhai yn anghytuno â'r arddull, yr eirfa a'r ramadeg ddefnyddir ynddo. Er hynny, dros y blynyddoedd y bu ar wefan [www.beibl.net](http://www.beibl.net), mae llawer wedi tystio iddo eu helpu i ddeall neges y Beibl yn well, a bu galw cyson am ei gyhoeddi fel llyfr.

Mae **beibl.net** yn gyfieithiad o'r ieithoedd gwreiddiol, sef Groeg y Testament Newydd, a Hebraeg (yn bennaf) yn yr Hen Destament. Dydy e ddim yn seiliedig ar, nac yn addasiad o, unrhyw fersiwn arall yn y Cymraeg na'r Saesneg. Mae nifer fawr o bobl wedi cyfrannu tuag at ei wneud yr hyn ydy e – darllenwyd drafftiau gan bobl ifanc, dysgwyr, a rhai Cymry sydd ag arbenigedd naill ai yn y Cymraeg fel ail iaith neu yn y testun Beiblaidd. Mae llawer o bobl eraill o wahanol rannau o'r byd wedi gadael eu hól ar y gwaith hefyd – nifer o arbenigwyr a phobl sy'n cyfieithu'r Beibl i wahanol ieithoedd – drwy gyfrwng y rhaglen gyfrifiadurol Paratext, ysgrifau, blogiau a thrafodaethau ar y We Fyd-eang, yn ogystal ag esboniadau ac erthyglau o bob math.

Mae cyfieithu yn ei hanfod yn galw am ddehongli. Rhaid ceisio deall yr hyn sy'n cael ei ddweud yn yr iaith wreiddiol a mynegi'r ystyr mor glir â phosib yn yr iaith dych chi'n cyfieithu iddi. Er bod **beibl.net** yn aml yn gyfieithiad eithaf llythrennol o'r gwreiddiol, mae'r prif bwyslais wedi bod ar geisio ei gadw yn ddealladwy. Felly, ceisiwyd canolbwytio ar ystyr brawddeg neu baragraff yn hytrach na chyfieithu'r testun gwreiddiol air am air. Yn hynny o beth, mae **beibl.net** yn ddyledus i lawer iawn o ysgolheigion Beiblaidd, sy'n rhy niferus i'w henwi yma.

O bryd i'w gilydd mae'r testunau gwreiddiol yn gallu bod yn amwys. Yn hytrach na cheisio cadw'r amwysedd hwnnw, dewiswyd yr ystyr mwyaf tebygol yn marn y cyfieithydd. Mewn rhai manau mae'r testun yn dywyll, ac mae ansicrwydd ac anghytundeb mawr ynglŷn â'r cyd-destun gwreiddiol a'r ystyr. Eto, yn yr achosion hyn, dewiswyd dilyn yr ystyr mwyaf tebygol yn marn y cyfieithydd. Cydnabyddir mai dyna wnaethpwyd, a derbynnir pob cyfrifoldeb am unrhyw wendidau yn y gwaith o ganlyniad i hynny.

Fel mae'r enw yn awgrymu, adnodd wedi ei fwriadu ar gyfer y We oedd **beibl.net** yn wreiddiol, a doedd dim bwriad i'w argraffu. Roedd dau brif grŵp o ddarllenwyr mewn golwg – pobl ifanc a dysgwyr y Gymraeg. Penderfynwyd, yn bennaf, cadw at ffurfiau llafar a ddefnyddir ar gyrsiau Wlpan. Ceisiwyd hefyd ddilyn y canllawiau a welir yn y llawlyfr "Ffuriau Ysgrifenedig Cymraeg Llafar" (CBAC, 1991).

Anogir pobl i'w ddarllen gan ynganu'r ffurfiau llafar yn y ffordd fwyaf naturiol iddyn nhw yn eu hardal – e.e. dŷn ni fel dan ni neu den ni neu yn ni; dych chi fel dach chi neu dech chi neu ych chi; gellir cyfnewid mae e am mae o, nawr am nŵan, i fyny am lan ayyb. Tra'n cydnabod bod hynny'n haws i'w wneud wrth lawrlwytho pennod o'r We a'i golygu rywfaint, bydden ni am annog y darllenwr i feithrin yr arferiad o addasu'r iaith i'r hyn sydd fwyaf naturiol iddo fe neu hi.

Ceisiwyd defnyddio 'iaith bob dydd' yn **beibl.net**, ac felly mae llawer o eiriau a phriod-ddulliau sy'n gyfarwydd i bobl sy'n mynychu capel ac eglwys wedi diflannu. Mae rhai eithriadau, a hynny'n bennaf am na fyddai defnyddio geiriau gwahanol yn helpu'r darllenwyd ryw lawer e.e. dewiswyd cadw 'Meseia' a 'Crist' yn hytrach na son am 'Iesu yr Eneiniog' neu eiriad tebyg.

Un o nodweddion eraill **beibl.net** ydy'r ffaith ei fod wedi newid sillafiad llawer o'r enwau priod – enwau pobl a lleoedd llai cyfarwydd. Mae'r enwau cyfarwydd wedi eu cadw fel y maent yn y Beibl Cymraeg Newydd, ond dewiswyd sillafu eraill mewn ffordd sy'n agosach at yr ynganiad Hebraeg gwreiddiol e.e. drwy adfer y sain 'ch' yn lle llawer i 'h', ychwanegu 'sh' lle mae'n wahanol i 's', defnyddio'r sain 'w' yn lle 'u' a gosod 'i' yn lle 'j' ar ddechrau llawer o enwau. Y gobaith yw y bydd yr enwau 'anodd' Hebraeg yn haws i'w hynganu yn ffonetig yn y Gymraeg.

Mae'r Rhagarweiniad Cyffredinol i'r Beibl Cymraeg Newydd (Argraffiad Diwygiedig 2004) yn sôn am "...yr angen dybryd am fersiwn o'r Beibl â'i iaith a'i arddull yn nes at yr hyn a arferir ar lafar, ac a fyddai felly'n fwy rhydd a phoblogaidd ei naws...". Ein gobaith ydy fod **beibl.net** yn un ateb i'r angen yna, ac y bydd yn bont i lawer elwa maes o law ar gyfoeth y cyfieithiadau clasurol Cymraeg, sef y Beibl Cyssegr-Lân ('Beibl William Morgan' ar lafar), a'r Beibl Cymraeg Newydd (Argraffiad Diwygiedig).

Mae Pwylgor gig (Gobaith i Gymru) am ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu mewn unrhyw fodd at wireddu'r prosiect hwn. Mae'n diolch i Gymdeithas y Beibl am bob anogaeth dros y blynyddoedd ac am y gwaith cysodi manwl, a diolch hefyd i ddarllenwyr y profleuni. Carem ddiolch yn arbennig i'r bobl hynny sydd wedi'n cefnogi ac wedi gweddio'n gyson dros y gwaith ar hyd y blynyddoedd. Ond mae'n diolch pennaf i Dduw am ei ddaioni a'i ffyddlondeb, a'n gweddi yw, y bydd **beibl.net** yn un cyfrwng bach arall i alluogi'n cyd-Gymry i ddoed i'w nabod yn well, ei anrhydeddu a'i foli am ei gariad tuag aton ni yn Iesu Crist.

# Ble i droi am help...

Y peth cyntaf i'w wneud bob amser ydy troi at Dduw, a siarad gydag e. Ond dydy gweddïo ddim bob amser yn hawdd. Mae darllen adnodau o'r Beibl yn help i ti weld nad wyt ti ar dy ben dy hun. Mae pobl eraill wedi cael yr un profiadau, ac (yn bwysicach na dim) mae Duw yn deall ac eisiau dy helpu.

Dyma rai profiadau, pynciau a theimladau all fod yn dy boeni. Darllenna rhai o'r adnodau i weld beth sydd gan y Beibl i'w ddweud.

## Amheuaeth

Diarhebbion 3:5-6; Barnwyr 6:36-40;  
Salm 23:13-14; Jeremeia 29:11-13;  
Mathew 8:23-27; Marc 9:23-24; Ioan 20:24-29;  
Iago 1:6; Jwdas 1:21-22

## Amser caled

Exodus 18:17-23; Numeri 11:10-23;  
1 Brenhinoedd 19:1-9; 1 Samuel 30:6;  
Job 19:1-27; Salm 43:1-4; 139; Esea 43:1-4;  
Mathew 5:4; 10:29-30; 11:28-30;  
Rhufeiniaid 8:29-39; Galatiaid 6:9-10;  
Hebreaid 12:1-13

## Angen amddiffyn

Numeri 6:24-26; Salm 27:1-6,14; 34:19;  
56:8-13; 91:1-16; Nahum 1:7; Malachi 3:17-18;  
2 Thesalonaiad 3:3

## Angen arweiniad

Jeremeia 29:11; 1 Cronid 16:11; Salm 25:9; 32:8;  
37:4,7; Diarhebbion 2:6-9; 3:5-6;  
Mathew 16:24; Ioan 16:12-13; Effesiaid 5:1-2;  
Iago 1:5-6

## Angen amynedd

Diarhebbion 14:29; 19:11; Rhufeiniaid 12:12;  
1 Corinthiaid 13:4; Galatiaid 5:22-23;  
Colosiaid 3:12-14; Hebreaid 10:36-39;  
Iago 5:7-11

## Angen bod yn ddewr

Josua 1:6-9; Salm 27:14; Actau 4:13-31;  
Effesiaid 6:10-20; Filipiaid 4:13;  
2 Timotheus 1:7

## Angen heddwch

Esea 26:3; Luc 1:78-79; Ioan 14:27;  
Rhufeiniaid 5:1-5; Filipiaid 4:4-7;  
Colosiaid 3:15

## Angen sicrwydd

Ioan 15:9-17; Rhufeiniaid 8:16,38-39;  
1 Ioan 3:19-24; 5:12-13; Jwdas 1:24

## Annhegwch

Salm 37:1-40; Mathew 5:38-48; Iago 1:2-4

## Arwain eraill

Mathew 20:25-28; Ioan 13:12-15;  
1 Timotheus 3:1-7; 4:12; 2 Timotheus 2:14-26;  
Titus 1:5-9

## Balchder

Diarhebbion 27:2; 29:23; Jeremeia 9:23;  
Luc 18:9-14; Filipiaid 2:3-11; Iago 4:6

## Blaenoriaethau

Diarhebbion 12:11; 28:19; Pregethwr 3:1-8;  
Haggai 1:5-9; Mathew 6:19-21,33; Luc 12:22-34;  
21:24-26; Titus 3:14

## Blinder

Esea 40:28; Mathew 11:28-30;  
2 Corinthiaid 4:16-18

## Cariad

Ioan 13:34-35; 1 Corinthiaid 13:1-13;  
1 Ioan 4:7-21

## Casáu fy hun

Salm 139; 1 Samuel 16:7; Jeremeia 1:4-10;  
Rhufeiniaid 8:31-39; 1 Corinthiaid 1:26-31;  
12:12-27; Colosiaid 3:12; 1 Pedr 2:9

## Casineb

Diarhebbion 10:12; Mathew 5:43-48;  
Ioan 15:18-25; 1 Ioan 2:9; 4:20

## Jacob yn dwyn bendith y mab hynaf

**27** Roedd Isaac yn hen ddyn ac yn dechrau mynd yn ddall. Dyma fe'n galw Esau, ei fab hynaf ato, <sup>2</sup>a dweud, "Gwranda, dw i wedi mynd yn hen, a gallwn i farw unrhyw bryd. <sup>3</sup>Cymer dy fwa, a chawell o saethau, a dos allan i hela i mi. <sup>4</sup>Wedyn dw i am i ti baratoi y math o fwyd blasus dw i'n ei hoffi, i mi gael bwyta. Dw i wir eisiau dy fendithio di cyn i mi farw."

<sup>5</sup>Tra oedd Isaac yn dweud hyn wrth Esau, roedd Rebeca wedi bod yn gwrando. Felly pan aeth Esau allan i hela <sup>6</sup>dyma Rebeca'n mynd at Jacob a dweud wrtho, "Dw i newydd glywed dy dad yn dweud wrth Esau dy frawd, <sup>7</sup>'Dos allan i hela a gwneud bwyd blasus i mi ei fwyta. Wedyn gwna i dy fendithio di o flaen yr ARGLWYDD cyn i mi farw.' <sup>8</sup>Felly gwna yn union fel dw i'n dweud. <sup>9</sup>Dewis ddau fyn gafr da i mi o'r praid. Gwna i eu coginio a gwneud pryd blasus i dy dad — y math o fwyd mae'n ei hoffi. <sup>10</sup>Cei di fynd â'r bwyd i dy dad iddo'i fwyta. Wedyn bydd e'n dy fendithio di cyn iddo farw." <sup>11</sup>"Ond mae Esau yn flegog i gyd," meddai Jacob wrth ei fam. "Croen meddal sydd gen i. <sup>12</sup>Os gwnaiff dad gyffwrdd fi bydd yn gweld fy mod i'n ceisio ei dwyllo. Bydda i'n dod â mellith arna i fy hun yn lle bendith." <sup>13</sup>Ond dyma'i fam yn dweud, "Gad i'r felltith ddoed arna i. Gwna di beth dw i'n ddweud. Dos i nôl y geifr."

<sup>14</sup>Felly aeth Jacob i nôl y geifr, a dod â nhw i'w fam. A dyma'i fam yn eu coginio nhw, a gwneud y math o fwyd blasus roedd Isaac yn ei hoffi. <sup>15</sup>Roedd dillad gorau Esau, ei mab hynaf, yn y tŷ gan Rebeca. Dyma hi'n eu cymryd nhw a gwneud i Jacob, ei mab ifancaf, eu gwisgo nhw. <sup>16</sup>Wedyn dyma hi'n cymryd crwyn y myn geifr a'u rhoi nhw ar ddwylo a gwdd Jacob. <sup>17</sup>Yna dyma hi'n rhoi'r bwyd blasus, gyda bara roedd hi wedi'i bobi, i'w mab Jacob.

<sup>18</sup>Aeth Jacob i mewn at ei dad. "Dad," meddai. "Ie, dyma fi," meddai Isaac. "Pa un wyt ti?" <sup>19</sup>"Esau, dy fab hynaf," meddai Jacob. "Dw i wedi gwneud beth ofynnaist ti i mi. Tyrd, eistedd i ti gael bwyta o'r helfa. Wedyn cei fy mendithio i." <sup>20</sup>Ond meddai Isaac, "Sut yn y byd wnest ti ei ddal mor sydyn?" A dyma Jacob yn ateb, "Yr ARGLWYDD dy Dduw wnaeth fy arwain i ato." <sup>21</sup>Wedyn dyma Isaac yn dweud wrth Jacob, "Tyrd yma i mi gael dy gyffwrdd di. Dw i eisiau bod yn siŵr mai Esau wyt ti." <sup>22</sup>Felly aeth Jacob at ei dad, a dyma Isaac yn gafael yn ei law. "Llais Jacob dw i'n ei glywed," meddai, "ond dwylo Esau ydy'r rhain." <sup>23</sup>(Wnaeth e ddim ei nabod am fod y dwylo'n flegog fel dwylo Esau. Dyna pam wnaeth Isaac fendithio Jacob.) <sup>24</sup>"Fy mab Esau wyt ti go iawn?" gofynnodd Isaac. "Ie," meddai Jacob. <sup>25</sup>"Tyrd â'r helfa yma i mi gael bwyta cyn dy fendithio di," meddai Isaac. Felly daeth Jacob â'r bwyd iddo, a dyma Isaac yn ei fwyta. Daeth â gwin iddo'i yfed hefyd. <sup>26</sup>Wedyn dyma Isaac yn dweud, "Tyrd yma a rho gusan i mi fy mab." <sup>27</sup>Aeth Jacob ato a rhoi cusan iddo. Pan glywodd Isaac yr arogl ar ddillad ei fab, dyma fe'n ei fendithio, a dweud,

"Ie, mae fy mab yn arogl  
fel y tir mae'r ARGLWYDD wedi'i fendithio.

<sup>28</sup> Boed i Dduw roi gwlith o'r awyr i ti,  
a chnydau gwych o'r tir,  
— digonedd o ỳd a grawnwin.

<sup>29</sup> Boed i bobloedd eraill dy wasanaethu di,  
a gwledydd eraill ymgyrnu o dy flaen.  
Byddi'n feistr ar dy frodyr,  
a bydd meibion dy fam yn ymgyrnu o dy flaen.

Bydd Duw yn melltithio pawb sy'n dy felltithio di,  
ac yn bendithio pawb sy'n dy fendithio di!"

<sup>30</sup>Roedd Isaac newydd orffen bendithio Jacob, a Jacob prin wedi gadael, pan ddaeth Esau i mewn ar ôl bod yn hela. <sup>31</sup>Dyma yntau'n paratoi bwyd blasus, a mynd ag e i'w dad. "Tyrd, eistedd, i ti gael bwyta o helfa dy fab, ac wedyn cei fy mendithio i." <sup>32</sup>"Pwy wyt ti?" meddai Isaac wrtho. "Esau, dy fab hynaf," meddai yntau. <sup>33</sup>Dechreuodd Isaac grynu drwyddo'n afreolus. "Ond pwy felly ddaeth â bwyd i mi ar ôl bod allan yn hela? Dw i newydd fwyta cyn i ti ddoed i mewn, a'i fendithio fe. Bydd e wir yn cael ei fendithio!" <sup>34</sup>Pan glywodd Esau beth ddwedodd ei dad, dyma fe'n sgrechian gweiddi'n chwerv. "Bendithia fi! Bendithia fi hefyd dad!" meddai. <sup>35</sup>Ond meddai

Isaac, “Mae dy frawd wedi fy nhwyllo i, a dwyn dy fendith.” <sup>36</sup>“Mae'r enw Jacob<sup>ph</sup> yn ei ffitio i'r dim!” meddai Esau. “Dyma'r ail waith iddo fy nisodli. Mae wedi cymryd fy hawliau fel y mab hynaf oddi arna i, a nawr mae e wedi dwyn fy mendith i.” Ac meddai wrth ei dad, “Wyt ti ddim wedi cadw un fendith i mi?” <sup>37</sup>Ond dyma Isaac yn ei ateb, “Dw i wedi'i wneud e yn feistr arnat ti. Bydd ei berthnasau i gyd yn ei wasanaethu. Bydd ganddo ddigon o yd a sudd grawnwin i'w gynnal. Felly beth sydd ar ôl i mi ei roi i ti, fy mab?” <sup>38</sup>“Ai dim ond un fendith sydd gen ti, dad? Bendithia fi! Bendithia fi hefyd dad!” A dyma Esau'n dechrau crio'n uchel.

<sup>39</sup>Felly dyma Isaac, ei dad, yn dweud fel hyn:

“Byddi di'n byw heb gael crydau da o'r tir,  
a heb wliith o'r awyr.

<sup>40</sup> Byddi di'n byw drwy ymladd â'r cleddyf,  
ac yn gwasanaethu dy frawd.

Ond byddi di'n gwrthryfela,  
ac yn torri'r iau oedd wedi'i rhoi ar dy ysgwyddau.”

### Jacob yn dianc i Padan-aram

<sup>41</sup>Roedd Esau yn casáu Jacob o achos y fendith roedd ei dad wedi'i rhoi iddo. “Bydd dad wedi marw cyn bo hir,” meddai'n breifat. “Bydda i'n lladd Jacob wedyn.” <sup>42</sup>Ond daeth Rebeca i glywed am beth roedd Esau, ei mab hynaf, yn ei ddweud. Felly dyma hi'n galw am Jacob, ei mab ifancaf, ac yn dweud wrtho, “Mae dy frawd Esau yn bwriadu dial arnat ti drwy dy ladd di. <sup>43</sup>Felly gwna beth dw i'n ddweud. Rhaid i ti ddianc ar unwaith at fy mrawd Laban yn Haran. <sup>44</sup>Aros yno gydag e am ychydig, nes bydd tymer dy frawd wedi tawelu. <sup>45</sup>Pan fydd e wedi anghofio beth wnest ti, gwna i anfon amdanat ti, i ti ddod yn ôl. Pam ddylwn i golli'r ddau ohonoch chi'r un diwrnod?”

<sup>46</sup>Aeth Rebeca at Isaac a dweud wrtho, “Mae'r merched yma o blith yr Hethiaid yn gwneud bywyd yn annioddefol! Os bydd Jacob yn gwneud yr un peth ag Esau ac yn priodi un o'r merched lleol yma, fydd bywyd ddim yn werth ei fyw!”

**28** Felly galwodd Isaac am Jacob a'i fendithio. Dwedodd wrtho, “Rhaid i ti beidio priodi un o ferched Canaan. <sup>2</sup>Dos i dŷ Bethwel dy daid yn Padan-aram, a phriodi un o ferched Laban, brawd dy fam. <sup>3</sup>Boed i'r Duw sy'n rheoli popeth<sup>ph</sup> dy fendithio di a rhoi llawer iawn o ddisgynyddion i ti, nes byddan nhw'n grŵp mawr o bobloedd. <sup>4</sup>Boed i Dduw roi bendith Abraham i ti a dy ddisgynyddion, i ti gymryd drosodd y tir rwy'ti wedi bod yn byw arno fel mewnfudwr. Dyma'r tir roddodd Duw i Abraham.”

<sup>5</sup>Felly dyma Isaac yn anfon Jacob i ffwrdd. Aeth i Padan-aram at frawd ei fam, sef Laban (mab Bethwel yr Aramead).

### Esau yn priodi merch ei ewyrrth Ishmael

<sup>6</sup>Clywodd Esau fod Isaac wedi bendithio Jacob a'i anfon i Padan-aram i ffeindio gwraig. Clywodd ei fod wedi dweud wrtho am beidio priodi un o ferched Canaan, <sup>7</sup>a bod Jacob wedi gwrandao ar ei dad a'i fam a mynd i Padan-aram. <sup>8</sup>Sylwedolodd Esau fod ei wragedd Canaaneaidd ddim yn plesio'i dad. <sup>9</sup>Felly dyma Esau yn mynd at ei ewyrrth Ishmael (mab Abraham) a phriodi gwraig arall, sef Machalath, merch Ishmael a chwaer Nebaioth.

### Breuddwyd Jacob

<sup>10</sup>Yn y cyfamser, roedd Jacob wedi gadael Beersheba i fynd i Haran. <sup>11</sup>Daeth i le arbennig a phenderfynu aros yno dros nos, am fod yr haul wedi machlud. Cymerodd gerrig oedd yno a'u gosod o gwmpas ei ben a gorwedd i lawr i gysgu. <sup>12</sup>Cafodd freuddwyd. Roedd yn gweld grisiau<sup>s</sup>

y de, na thir Joseff yn y gogledd. <sup>6</sup>Mapiwch y tir a'i rannu'n saith ardal wahanol, a dewch ag e i mi. Wedyn bydda i'n bwrw coelbren o flaen yr ARGLWYDD eich Duw, i ddewis pa ardal fydd yn cael ei rhoi i bob llwyth. <sup>7</sup>Ond fydd llwyth Lefi ddim yn cael rhan o'r tir. Eu braint nhw ydy cael bod yn offeiriad i'r ARGLWYDD. Ac mae llwythau Gad, Reuben a hanner llwyth Manasse eisoes wedi derbyn tir yr ochr arall i afon Iorddonen, gan Moses, gwas yr ARGLWYDD.”

<sup>8</sup>Cyn i'r dynion gychwyn ar eu taith, dyma Josua yn gorchymyn iddyn nhw: “Ewch i grwydro drwy'r wlad a'i mapio, a pharatoi arolwg llawn ohoni i mi. Yna dewch yn ôl ata i. Bydda i wedyn yn bwrw coelbren o flaen yr ARGLWYDD yma yn Seilo, i weld pa ardal fydd yn cael ei rhoi i bob llwyth.”

<sup>9</sup>Felly dyma'r dynion yn mynd drwy'r wlad i gyd, a'i mapio, a rhestru'r trefi i gyd ar sgrôl, a rhannu'r tir yn saith ardal. Yna dyma nhw'n dod yn ôl at Josua i'r gweryll yn Seilo.

<sup>10</sup>A dyma Josua yn bwrw coelbren o flaen yr ARGLWYDD yn Seilo, i rannu'r tir rhwng pobl Israel, a gweld pa ardal fyddai pob llwyth yn ei gael.

### Y tir gafodd llwyth Benjamin

<sup>11</sup>Teuluoedd llwyth Benjamin gafodd y rhan gyntaf. Eu tir nhw fyddai'r ardal rhwng tir Jwda a thir meibion Joseff. <sup>12</sup>Roedd y ffin yn y gogledd yn mynd o afon Iorddonen ar hyd y llethr i'r gogledd o Jericho, wedyn i fyny i'r bryniau i gyfeiriad y gorllewin ac ymlaen at anialwch Bethafen. <sup>13</sup>Roedd yn croesi wedyn i Lws, ar hyd y llethr sydd i'r de o Lws (sef Bethel). Yna i lawr i Atroth-adar sydd ar y bryn i'r de o Beth-choron Isaf. <sup>14</sup>Wedyn roedd yn troi o'r fan honno i'r de, ar hyd ochr orllewinol y bryn ac i lawr i Ciriath-baal (sef Ciriath-iearîm), un o'r trefi oedd ar dir llwyth Jwda. Dyna'r ffin i'r gorllewin. <sup>15</sup>Yna roedd ffin y de yn dechrau wrth Ciriath-iearîm, ac yn rhedeg i gyfeiriad Ffynnon Nefftoach. <sup>16</sup>Wedyn roedd y ffin yn mynd i lawr at droed y mynydd gyferbyn â Dyffryn Ben-hinnom, sydd wrth ben gogleddol Dyffryn Reffaîm. Yna i lawr Dyffryn Hinnom at y llethr sydd i'r de o Jerwsalem,<sup>y</sup> ac ymlaen i En-rogel. <sup>17</sup>O En-rogel roedd yn troi i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain i En-shemesh, ac yna i Geliloth, sydd gyferbyn â Bwlch Adwmîm, ac yna i lawr at Garreg Bohan (mab Reuben). <sup>18</sup>Yna croesi i gyfeiriad y gogledd ar hyd y llethr sydd o flaen Dyffryn Iorddonen, cyn mynd i lawr i'r dyffryn ei hun. <sup>19</sup>Croesi wedyn at lethr Beth-hogla ac ymlaen i ben uchaf y Môr Marw,<sup>a</sup> wrth aber afon Iorddonen. Dyna ffin y de. <sup>20</sup>Wedyn afon Iorddonen oedd y ffin i'r dwyrain.

Dyna ffiniau'r tir gafodd ei roi i deuluoedd llwyth Benjamin.

<sup>21</sup>A dyma'r trefi oedd yn perthyn i lwyth Benjamin:

Jericho, Beth-hogla, Emec-cetsits, <sup>22</sup>Beth-araba, Semaraîm, Bethel, <sup>23</sup>Afim, Para, Offra,

<sup>24</sup>Ceffar-ammona, Offni, a Geba — un deg dwy o drefi, a'r pentrefi o'u cwmpas.

<sup>25</sup>Gibeon, Rama, Beëroth, <sup>26</sup>Mitspe, Ceffira, Motsa, <sup>27</sup>Recem, Irpeël, Tarala, <sup>28</sup>Sela, Eleff, tref y Jebwsiaid (sef Jerwsalem), Gibeon, a Ciriath — un deg pedair o drefi, a'r pentrefi o'u cwmpas.

Dyma'r tir gafodd ei roi i deuluoedd llwyth Benjamin.

### Y tir gafodd llwyth Simeon

**19** Teuluoedd llwyth Simeon gafodd yr ail ran. Roedd eu tir nhw o fewn tiriogaeth Jwda.

<sup>2</sup> Roedd eu tir nhw yn cynnwys Beersheba,<sup>b</sup> Molada, <sup>3</sup>Chatsar-shwal, Bala, Etsem, <sup>4</sup>Eltolad, Bethwl, Horma, <sup>5</sup>Siclag, Beth-marcaboth, Chatsar-swsa, <sup>6</sup>Beth-lebaoth, a Sharwchen — un deg tair o drefi, a'r pentrefi o'u cwmpas.

<sup>7</sup> Ain, Rimmon, Ether, ac Ashan — pedair o drefi, a'r pentrefi o'u cwmpas. <sup>8</sup>Hefyd y pentrefi oedd o'u cwmpas nhw yr holl ffordd i Baalath-beër (sef Rama yn y Negef).



Dyma'r tir gafodd ei roi i deuluoedd llwyth Simeon. <sup>9</sup>Cafodd tir Simeon ei gymryd allan o gyfran Jwda, am fod gan Jwda ormod o dir. Felly roedd tir llwyth Simeon o fewn ffiniau Jwda.

### Y tir gafodd llwyth Sabulon

<sup>10</sup>Teuluoedd llwyth Sabulon gafodd y drydedd ran.

Roedd ffin eu tiriogaeth nhw yn ymestyn yr holl ffordd i Sarid yn y de-ddwyrain. <sup>11</sup>Roedd yn mynd i gyfeiriad y gorllewin i Marala, heibio Dabbesheth ac at y ceunant wrth Iocneam. <sup>12</sup>O Sarid roedd yn troi i gyfeiriad y dwyrain at y ffin gyda Cislloth-tabor, yna ymlaen i Daberath, ac i fyny i Jaffia. <sup>13</sup>Wedyn roedd yn croesi drosodd i Gath-heffer ac

Eth-catsin ac ymlaen i Rimmon, cyn troi i gyfeiriad Nea. <sup>14</sup>Wedyn roedd yn mynd rownd i'r gogledd i Channathon ac yn gorffen yn Nyffryn Ifftachél.

<sup>15</sup>Roedd eu tiriogaeth nhw yn cynnwys Catta, Nahalal, Shimron, Idalâ, a Bethlehem. Roedd ganddyn nhw un deg dwy o drefi i gyd, a'r pentrefi o'u cwmpas.

<sup>16</sup>Dyma'r tir gafodd ei roi i deuluoedd llwyth Sabulon, yn cynnwys y trefi yma i gyd a'r pentrefi o'u cwmpas.

### Y tir gafodd llwyth Issachar

<sup>17</sup>Teuluoedd llwyth Issachar gafodd y bedwaredd ran.

<sup>18</sup>Roedd eu tiriogaeth nhw yn cynnwys Jesreel, Ceswloth, Shwnem, <sup>19</sup>Chaffaraïm, Shion, Anacharith, <sup>20</sup>Rabbith, Cishon, Ebes, <sup>21</sup>Remeth, En-gannîm, En-hada, a Beth-patsets.

<sup>22</sup>Roedd eu ffin yn cyffwrdd Mynydd Tabor, Shachatsima a Beth-shemesh, ac yn gorffen wrth afon lorddonen. Un deg chwech o drefi i gyd, a'r pentrefi o'u cwmpas.

<sup>23</sup>Dyma'r tir gafodd ei roi i deuluoedd llwyth Issachar, yn cynnwys y trefi yma i gyd a'r pentrefi o'u cwmpas.

### Y tir gafodd llwyth Asher

<sup>24</sup>Teuluoedd llwyth Asher gafodd y bumed ran.

<sup>25</sup>Roedd eu tiriogaeth nhw yn cynnwys Chelcath, Chali, Beten, Achsaff, <sup>26</sup>Alammelech, Amad, a Mishal. Roedd eu ffin nhw yn mynd o Carmel yn y gorllewin i Shichor-libnath. <sup>27</sup>Wedyn roedd yn troi i'r dwyrain i gyfeiriad Beth-dagon, at ffin llwyth Sabulon a Dyffryn Ifftachél i'r gogledd, yna i Beth-emec a Neiel, ac yna ymlaen i Cabwl yn

yn gogledd. <sup>28</sup>Yna i Ebron, Rechob, Chammôn, a Cana, yr holl ffordd i Sidon Fawr. <sup>29-30</sup>Wedyn roedd yn troi i gyfeiriad Rama a tref gaerog Tyrus, cyn troi i Chosa a mynd at y môr. Roedd ganddyn nhw ddau ddeg dwy o drefi i gyd, a'r pentrefi o'u cwmpas, gan gynnwys Machalab,<sup>c</sup> Achsib, Acco,<sup>ch</sup> Affec, a Rechob.

<sup>31</sup>Dyma'r tir gafodd ei roi i deuluoedd llwyth Asher, yn cynnwys y trefi yma i gyd a'r pentrefi o'u cwmpas.

### Y tir gafodd llwyth Nafftai

<sup>32</sup>Teuluoedd llwyth Nafftai gafodd y chweched ran.

<sup>33</sup>Roedd y ffin yn dechrau wrth Cheleff a'r dderwen yn Tsa-ananîm, yna'n

mynd i Adami-necef, Iabneël, ymlaen i Lacwm, cyn gorffen wrth

- 14 Dw i am gadw fy addewidion i'r ARGLWYDD  
o flaen ei bobl.
- 15 Mae bywyd' pob un o'i bobl ffyddlon  
yn werthfawr yng ngolwg yr ARGLWYDD.
- 16 Plis, ARGLWYDD,  
dw i wir yn un o dy weision  
ac yn blentyn i dy forwyn.  
Rwyt ti wedi datod y clymau oedd yn fy rhwymo i.
- 17 Dw i'n cyflwyno offrwm i ddiolch i ti  
ac yn galw ar enw'r ARGLWYDD.
- 18 Dw i am gadw fy addewidion i'r ARGLWYDD  
o flaen y bobl sy'n ei addoli
- 19 yn ei deml yn Jerwsalem.

Haleliwia!

### Molwch yr ARGLWYDD!

- 117** Molwch yr ARGLWYDD, chi genhedloedd i gyd!  
Canwch fawl iddo, holl bobloedd y byd!
- 2 Mae ei gariad tuag aton ni mor fawr!  
Mae'r ARGLWYDD bob amser yn ffyddlon.

Haleliwia!

### Gweddi o ddiolch am ddaioni Duw

- 118** Diolchwch i'r ARGLWYDD!  
Mae e mor dda aton ni!
- 2 Gadewch i Israel gyfan ddweud,  
*"Mae ei haelioni yn ddiddiwedd."*
- 3 Gadewch i'r offeiriaid ddweud,  
*"Mae ei haelioni yn ddiddiwedd."*
- 4 Gadewch i bawb arall sy'n addoli'r ARGLWYDD ddweud,  
*"Mae ei haelioni yn ddiddiwedd."*
- 5 Rôn i mewn helbul, a dyma fi'n galw ar yr ARGLWYDD.  
Dyma'r ARGLWYDD yn ateb ac yn fy helpu i ddianc.
- 6 Mae'r ARGLWYDD ar fy ochr,  
felly fydd gen i ddim ofn.  
Beth all pobl ei wneud i mi?
- 7 Mae'r ARGLWYDD ar fy ochr i'm helpu,  
felly bydda i'n gweld fy ngelynyon yn syrthio.
- 8 Mae'n llawer gwell troi at yr ARGLWYDD am loches  
na trystio pobl feidrol!
- 9 Mae'n llawer gwell troi at yr ARGLWYDD am loches  
na trystio'r arweinwyr.
- 10 Roedd y paganiaid yn ymosod arna i;  
ond dyma'r ARGLWYDD yn fy helpu i'w gyrru nhw i ffwrdd.

- 11 Roedden nhw'n ymosod arna i o bob cyfeiriad;  
ond dyma'r ARGLWYDD yn fy helpu i'w gyrru nhw i ffwrdd.
- 12 Roedden nhw o'm cwmpas i fel haid o wenyng;  
ond dyma nhw'n diflannu mor sydyn â drain yn llosgi.  
Dyma'r ARGLWYDD yn fy helpu i'w gyrru i ffwrdd.
- 13 Roedden nhw'n gwasgu arna i'n galed,  
a bu bron i mi syrthio;  
ond dyma'r ARGLWYDD yn fy helpu.
- 14 Yr ARGLWYDD sy'n rhoi nerth a chân i mi!  
Fe sydd wedi fy achub i.
- 15 Mae pobl Dduw i'w clywed yn canu am y fuddugoliaeth yn eu pebyll,  
"Mae'r ARGLWYDD mor gryf!
- 16 Mae'r ARGLWYDD yn fuddugol!  
Mae'r ARGLWYDD mor gryf!"
- 17 Dw i'n fyw! Wnes i ddim marw!  
Bydda i'n dweud beth wnaeth yr ARGLWYDD!
- 18 Roedd yr ARGLWYDD wedi fy nghosbi'n llym,  
ond wnaeth e ddim gadael i mi gael fy lladd.
- 19 Agorwch giatiauw cyfiawnder i mi  
er mwyn i mi fynd i mewn i ddiolch i'r ARGLWYDD!
- 20 Giât yr ARGLWYDD ydy hon –  
dim ond y rhai cyfiawn sy'n cael mynd drwyddi.
- 21 Diolch i ti am ateb fy ngweddi,  
ac am fy achub i.
- 22 Mae'r garreg wrthododd yr adeiladwyr  
wedi cael ei gwneud yn garreg sylfaen.
- 23 Yr ARGLWYDD wnaeth hyn,  
mae'r peth yn rhyfeddol yn ein golwg!
- 24 Mae heddiw'n ddiwrnod i'r ARGLWYDD –  
gadewch i ni ddathlu a bod yn llawen!
- 25 O ARGLWYDD, plis achub ni! //  
O ARGLWYDD, gwna i ni lwyddo!
- 26 Mae'r un sy'n dod i gynrychioli'r ARGLWYDD  
wedi'i fendithio'n fawr –  
Bendith arnoch chi i gyd o deml yr ARGLWYDD!
- 27 Yr ARGLWYDD ydy'r Duw go iawn,  
ac mae wedi rhoi ei olau i ni.  
Gadewch i ni ddathlu!  
Ewch at yr allor gyda changhennau coed palmwydd.
- 28 Ti ydy fy Nuw i a dw i'n diolch i ti!  
Ti ydy fy Nuw i a dw i'n dy ganmol di!
- 29 Diolchwch i'r ARGLWYDD!  
Mae e mor dda aton ni!  
*"Mae ei haelioni yn ddiddiwedd."*

ag ofn,” meddai Iesu wrthyn nhw, “Ewch i ddweud wrth fy mrodyr am fynd i Galilea; byddan nhw'n cael fy ngweld i yno.”

### Adroddiad y milwyr

<sup>11</sup>Tra oedd y gwragedd ar eu ffordd, dyma rhai o'r milwyr yn mynd i'r ddinas i ddweud wrth y prif offeiriad am bopeth oedd wedi digwydd. <sup>12</sup>Yna aeth y prif offeiriad i gyfarfod gyda'r arweinwyr eraill i drafod beth i'w wneud. Dyma nhw'n penderfynu talu swm mawr o arian i'r milwyr <sup>13</sup>i ddweud celwydd. “Dyma beth dych chi i'w ddweud: medden nhw, ‘Daeth ei ddisgyblion yn ystod y nos a dwyn y corff tra oedden ni'n cysgu.’ <sup>14</sup>Peidiwch poeni os bydd y llywodraethwr<sup>n</sup> yn clywed y stori, deliwn ni gyda hynny a gwneud yn siŵr na chewch chi'ch cosbi.” <sup>15</sup>Felly dyma'r milwyr yn cymryd yr arian ac yn gwneud beth ddwedwyd wrthyn nhw. Dyma'r stori mae'r Iddewon i gyd yn dal i'w defnyddio heddiw!

### Y Comisiwn Mawr

*(Marc 16:14-18; Luc 24:36-49; Ioan 20:19-23; Actau 1:6-8)*

<sup>16</sup>Dyma'r un deg un disgybl yn mynd i Galilea, i'r mynydd lle roedd Iesu wedi dweud wrthyn nhw am fynd. <sup>17</sup>Pan welon nhw Iesu, dyma nhw'n ei addoli – ond roedd gan rai amheuan. <sup>18</sup>Wedyn dyma Iesu'n mynd atyn nhw ac yn dweud, “Dw i wedi cael awdurdod llwyr i reoli popeth yn y nefoedd ac ar y ddaear. <sup>19</sup>Felly ewch i wneud pobl o bob gwlad yn ddisgyblion i mi, a'u bedyddio nhw fel arwydd eu bod nhw wedi dod i berthynas â'r Tad, a'r Mab a'r Ysbryd Glân. <sup>20</sup>A dysgwch nhw i wneud popeth dw i wedi'i ddweud wrthoch chi. Gallwch chi fod yn siŵr y bydda i gyda chi bob amser, nes bydd diwedd y byd wedi dod.”



# Marc

## Ioan Fedyddiwr yn paratoi'r ffordd

(*Mathew 3:1-12; Luc 3:1-18; Ioan 1:19-28*)

**1** Mae'r newyddion da am Iesu y Meseia, Mab Duw yn dechrau fel hyn:

<sup>2</sup>Mae'n dweud yn llyfr y proffwyd Eseia:

*“Edrych – dw i'n afon fy negesydd o dy flaen di,  
i baratoi'r ffordd i ti” –*

<sup>3</sup>*“Llais yn gweiddi'n uchel yn yr anialwch,  
'Paratowch y ffordd i'r Arglwydd ddod!  
Gwnewch y llwybrau'n syth iddo!”*

<sup>4</sup>Dyna beth wnaeth Ioan – roedd yn bedyddio pobl yn yr anialwch ac yn cyhoeddi fod hyn yn arwydd eu bod yn troi cefn ar eu pechodau ac yn derbyn maddeuant gan Dduw. <sup>5</sup>Roedd pobl cefn gwlad Jwdea a dinas Jerwsalem yn heidio allan ato. Pan oedden nhw'n cyfaddef eu pechodau roedd yn eu bedyddio nhw yn afon Iorddonen.

<sup>6</sup>Roedd Ioan yn gwisgo dillad o flew camel gyda belt lleder am ei ganol, ac roedd yn bwyta locustiaid a mêl gwyllt. <sup>7</sup>Dyma oedd ei neges: “Mae un llawer mwy grymus na fi yn dod ar fy ôl i – fyddwn i ddim digon da i fod yn gaethwas yn plygu i lawr i ddatod carrai ei sandalau. <sup>8</sup>Dw i'n defnyddio dŵr i'ch bedyddio chi, ond bydd hwn yn eich bedyddio chi â'r Ysbryd Glân.”

## Bedydd Iesu a'i demtiad

(*Mathew 3:13 – 4:11; Luc 3:21,22; 4:1-13*)

<sup>9</sup>Tua'r adeg yna daeth Iesu o Nasareth, Galilea i gael ei fedyddio gan Ioan yn yr Iorddonen. <sup>10</sup>Yr eiliad y daeth Iesu allan o'r dŵr, gwelodd yr awyr yn rhwygo'n agored a'r Ysbryd Glân yn disgyn arno fel colomen. <sup>11</sup>A dyma lais o'r nefoedd yn dweud: “Ti ydy fy Mab annwyl i; rwyd ti wedi fy mhlesio i'n llwyr.”

<sup>12</sup>Yn syth wedyn dyma'r Ysbryd yn gyrru Iesu allan i'r anialwch. <sup>13</sup>Arhosodd yno am bedwar deg diwrnod, yn cael ei demtio gan Satan. Roedd anifeiliaid gwyllt o'i gwmpas, ond roedd yno angylion yn gofalu amdano.

## Galw'r disgyblion cyntaf

(*Mathew 4:12-22; Luc 4:14,15; 5:1-11*)

<sup>14</sup>Ar ôl i Ioan gael ei roi yn y carchar aeth Iesu i Galilea a chyhoeddi newyddion da Duw. <sup>15</sup>“Mae'n amser!” meddai. “Mae'r foment wedi dod! Mae Duw yn dod i deyrnasu! Trowch gefn ar bechod a chredu'r newyddion da!”

<sup>16</sup>Pan oedd Iesu'n cerdded wrth Lyn Galilea, gwelodd ddau frawd, Simon ac Andreas. Pysgotwyr oedden nhw, ac roedden nhw wrthi'n taflu rhwyd i'r llyn. <sup>17</sup>“Dewch,” meddai Iesu, “dilynwch fi, a gwna i chi'n bysgotwyr sy'n dal pobl yn lle pysgod.” <sup>18</sup>Heb oedi dyma'r ddau yn gollwng eu rhwydi a mynd ar ei ôl.

<sup>19</sup>Ychydig yn nes ymlaen gwelodd Iago ac Ioan, dau fab Sebedeus. Roedden nhw wrthi'n trwsio eu rhwydi yn eu cwch. <sup>20</sup>Dyma Iesu'n eu galw nhw hefyd, a dyma nhw'n gadael eu tad Sebedeus gyda'r gweision yn y cwch a dechrau dilyn Iesu.

am byth – dyna'n sicr ydy'r peth gorau allai ddigwydd i mi, o bell ffordd! <sup>24</sup>Ond mae'n well o lawer i chi os ca i aros yn fyw. <sup>25</sup>O feddwl am y peth, dw i'n reit siŵr y bydda i'n aros, i'ch helpu chi i dyfu a phrofi'r llawenydd sydd i'w gael o gredu yn y Meseia. <sup>26</sup>Felly pan fydda i'n dod atoch chi eto, bydd gynnoch chi fwy fyth o reswm i frolio am y Meseia Iesu.

<sup>27</sup>Ond beth bynnag fydd yn digwydd i mi, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n dal ati i ymddwyn mewn ffordd sy'n dangos fod y newyddion da am y Meseia yn wir. Wedyn, os bydda i'n dod i'ch gweld chi neu beidio, byddwch chi'n sefyll yn gadarn ac yn brwydro'n galed gyda'ch gilydd dros y newyddion da. <sup>28</sup>Peidiwch bod ag ofn y bobl hynny sy'n eich erbyn chi. Bydd hyn i gyd yn arwydd iddyn nhw y byddan nhw'n cael eu dinistrio, ond y cewch chi eich achub – a hynny gan Dduw. <sup>29</sup>Eich braint chi ydy dim yn unig credu yn y Meseia, ond hefyd cael dioddef drosto. <sup>30</sup>Dych chi'n wynebu yn union yr un frwydr weloch chi fi'n ei hymladd! A dw i'n dal yn ei chanol hi fel dych chi'n gweld.

### Bod yn ostyngedig, fel Iesu

**2** Os ydy perthyn i'r Meseia yn anogaeth o unrhyw fath i chi; os ydy ei gariad o unrhyw gysur i chi; os ydy'r Ysbryd yn eich clymu chi'n un, ac yn eich gwneud yn llawn tosturi ac yn garedig <sup>2</sup>– yna gwnewch fi'n wirioneddol hapus drwy rannu'r un agwedd meddwl, dangos cariad at eich gilydd, a bod yn un o ran ysbryd a phwrpas. <sup>3</sup>Peidiwch bod am y gorau i fod yn bwysig, nac yn llawn ohonoch chi'ch hunain. Byddwch yn ostyngedig, a pheidio meddwl eich bod chi'n well na phobl eraill. <sup>4</sup>Meddylwch am bobl eraill gyntaf, yn lle dim ond meddwl amdanoch chi'ch hunain. <sup>5</sup>Dylai eich agwedd chi fod yr un fath ag agwedd y Meseia Iesu:

- <sup>6</sup> Roedd e'n rhannu'r un natur â Duw,  
heb angen ceisio gwneud ei hun yn gydradd â Duw;
- <sup>7</sup> ond dewisodd roi ei hun yn llwyr i wasanaethu eraill,<sup>a</sup>  
a gwneud ei hun yn gaethwas,  
a dod aton ni fel person dynol –  
roedd yn amlwg i bawb ei fod yn ddyd.
- <sup>8</sup> Yna diraddio ei hun fwy fyth,  
a bod yn ufudd, hyd yn oed i farw –  
ie, drwy gael ei ddiennyddio ar y groes.
- <sup>9</sup> Felly dyma Duw yn ei ddyrchafu i'r safle uchaf;  
a rhoi'r enw pwysica un iddo!
- <sup>10</sup> *Bydd pob glin yn plygu i enw Iesu –*  
pawb yn y nefoedd,  
ar y ddaear,  
a than y ddaear;
- <sup>11</sup> *a bydd pawb yn cydnabod*  
mai Iesu Grist ydy'r Arglwydd,  
ac yn rhoi clod i Dduw y Tad.

### Disgleirio fel sêr

<sup>12</sup>Felly, ffrindiau annwyl, fel roeddech chi'n ufudd pan oeddwn i acw gyda chi, mae'n bwysicach fyth eich bod chi'n ufudd pan dw i'n absennol. Gyda pharch a defosiwn i Dduw daliwch ati i weithio ar eich iechyd ysbrydol fel cymuned. <sup>13</sup>Mae Duw ar waith yn eich bywydau chi, yn creu'r awydd ynoch chi ac yn eich galluogi chi i wneud beth sy'n ei blesio fe.

<sup>14</sup>Gwnewch bopeth heb gwyno a ffraeo, <sup>15</sup>er mwyn i chi dyfu fel plant i Dduw, yn byw bywydau glân a di-fai yng nghanol cymdeithas o bobl droëdig ac ystyfnig. Byddwch fel sêr

a 2:7 roi ei hun ... eraill: Groeg, "gwagio ei hun".

yn disgleirio yn yr awyr <sup>16</sup>wrth i chi rannu'r neges am y bywyd newydd gydag eraill. Wedyn pan ddaw y Meseia yn ôl, bydda i'n gallu bod yn falch ohonoch chi. Bydda i'n gwybod na fuodd yr holl redeg a'r gwaith caled yn wastraff amser. <sup>17</sup>Mae'n bosib iawn y bydda i'n marw fel merthyr, a'm gwaed i'n cael ei dywallt fel diodoffrwm ar aberth y gwasanaeth ffyddlon dych chi'n ei gyflwyno i Dduw. Os mai dyna sydd i ddigwydd, dw i'n hapus, ac am rannu fy llawenydd gyda chi. <sup>18</sup>A dylech chithau hefyd fod yn hapus, i mi gael rhannu eich llawenydd chi.

### Timotheus ac Epaffroditws

<sup>19</sup>Dw i'n gobeithio anfon Timotheus atoch chi'n fuan, os bydd yr Arglwydd Iesu yn caniatáu hynny, er mwyn cael newyddion amdanoch chi fydd yn codi nghanol i. <sup>20</sup>Does gen i neb tebyg i Timotheus. Mae'n teimlo'n union fel dw i'n teimlo – mae ganddo'r fath gonsŷrn drosoch chi. <sup>21</sup>Poeni amdany'n nhw eu hunain mae pawb arall, dim am beth sy'n bwysig i Iesu Grist. <sup>22</sup>Ond mae Timotheus yn wahanol, mae wedi profi ei hun yn wahanol. Mae wedi gweithio gyda mi dros y newyddion da, fel mab yn helpu ei dad. <sup>23</sup>Felly dw i'n gobeithio ei anfon atoch chi cyn gynted ag y ca i wybod beth sy'n mynd i ddigwydd i mi. <sup>24</sup>Ac ydw, dw i wir yn hyderus y bydd yr Arglwydd yn caniatáu i minnau ddod i'ch gweld chi'n fuan!

<sup>25</sup>Ond yn y cyfamser dw i wedi bod yn teimlo bod rhaid i mi anfon Epaffroditws yn ôl atoch chi – brawd ffyddlon arall sy'n gydweithiwr ac yn gyd-filwr dros achos Iesu. Chi wnaeth ei anfon e i'm helpu i pan oeddwn i angen help. <sup>26</sup>Mae wedi bod yn hiraethu amdanoch chi, ac yn poeni'n fawr eich bod wedi clywed ei fod wedi bod yn sâl. <sup>27</sup>Mae'n wir, roedd e'n wirioneddol sâl. Bu bron iddo farw. Ond buodd Duw'n garedig ato – ac ata i hefyd. Petai e wedi marw byddwn i wedyn wedi cael fy llethu gan fwy fyth o dristwch. <sup>28</sup>Dyna pam dw i mor awyddus i'w anfon yn ôl atoch chi. Dw i'n gwybod y byddwch chi mor llawen o'i weld, a fydd dim rhaid i mi boeni cymaint. <sup>29</sup>Felly rhowch groeso brwd iddo. Dylid anrhydeddu pobl debyg iddo, <sup>30</sup>achos bu bron iddo farw wrth wasanaethu'r Meseia. Mentrodd ei fywyd er mwyn fy helpu i, a gwneud ar eich rhan chi beth roeddech chi'n methu ei wneud eich hunain.

### Ymffrostio yn y Meseia

**3** Yn olaf, ffrindiau, byddwch yn llawen eich bod chi'n perthyn i'r Arglwydd! Dw i ddim yn blino dal ati i ysgrifennu'r un peth atoch chi. Dw i'n gwneud hynny i'ch amddiffyn chi.

<sup>2</sup>Gwylwch y bobl hynny sydd ond eisiau gwneud drwg – y cŵn annifyr! Y rhai sy'n dweud fod rhaid torri'r cnawd â chyllell i gael eich achub! <sup>3</sup>Ni, dim nhw, ydy'r rhai sydd wedi cael ein henwaedu go iawn – ni sy'n addoli Duw dan arweiniad yr Ysbryd Glân. <sup>4</sup>Ni sy'n ymfalchio yn beth wnaeth y Meseia Iesu, dim beth sydd wedi'i wneud i'r corff.

<sup>4</sup>Er, byddai gen i ddigon o sail i ymddiried yn hynny taswn i eisiau! Mae gen i fwy o le i ymddiried yn y math yna o beth na neb!

<sup>5</sup>Ces i fy enwaedu yn wythnos oed;<sup>c</sup>

dw i'n dod o dras Iddewig pur;

dw i'n aelod o lwyth Benjamin;

dw i'n siarad Hebraeg, fel mae fy rhieni;

roeddwn i'n Pharisead oedd yn cadw Cyfraith Moses yn fanwl, fanwl;

<sup>6</sup>roeddwn i mor frwd nes i mi fynd ati i erlid yr eglwys Gristnogol.

Yn ôl y safonau mae'r Gyfraith Iddewig yn ei hawlio, doedd neb yn gallu gweld bai arna i.

<sup>7</sup>Rôn i'n cyfri'r pethau yna i gyd mor bwysig ar un adeg, ond o achos beth wnaeth y Meseia, dŷn nhw'n dda i ddim bellach. <sup>8</sup>Does dim byd mwy gwerthfawr bellach na'r fraint aruthrol

b 3:3 *dan arweiniad yr Ysbryd Glân*: Mae rhai llawysgrifau yn dweud o *ddifri*. c 3:5 *yn wythnos oed*: Mae bechgyn Iddewig yn cael eu henwaedu wythnos ar ôl eu geni.

3:6 gw. Actau 8:3; 22:4; 26:9-11

# Geirfa

## Abba

Y gair am dad / dadi / tada yn yr iaith Aramaeg. Mae'n air sy'n mynegi perthynas glos, gariadus.

## Aberth

Yn yr Hen Destament roedd Duw yn gorchymyn i'r bobl aberthu anifail neu aderyn i dalu am eu pechodau. Roedd yr anifail neu aderyn yn cael ei ladd a'i waed yn cael ei sbasio ar yr allor, wedyn roedd y corff yn cael ei losgi. Roedd yr aberthau yma yn ddarlun o Iesu yn dod fel 'oen Duw' i aberthu ei hun un waith ac am byth dros bechaduriaid (Hebreaid 10:11-12).

## Adda

Y dyn cyntaf wnaeth Duw ei greu. Ystyr yr enw Adda ydy dyn neu dynoliaeth.

## Addoli

Y weithred o glodfori, moli, anrhydeddu a pharchu Duw. Plygu o'i flaen, rhyfeddu ato, a mynegi awydd i fod yn ufudd iddo.

## Adduned

Addo gwneud rhywbeth.

## Aiddfyodiad

Roedd Iesu yn dweud y byddai yn dod yn ôl i'r ddaear am yr ail waith ar ddiwedd amser. Bydd yn dod mewn ysblander a gogoniant i farnu ac i sefydlu ei deyrnas yn dragwyddol.

## Alffa ac Omega

Y llythren gyntaf a'r olaf yn wyddor yr iaith Roeg – yn cynrychioli'r dechrau a'r diwedd.

## Allor

Roedd pobl yn codi allorau i offrymu aberthau arny'n nhw. Mae sôn yn y Beibl am allorau i Dduw (e.e. yn y Tabernacl a'r Deml), ac am allorau i Baal a 'duwiau' paganaidd eraill.

## Amen

Yn wir neu yn sicr. Roedd pobl yn dweud Amen pan oedden nhw'n cytuno'n gryf gyda rhywbeth oedd wedi cael ei ddweud.

## Angylion

Creaduriaid ysbrydol sy'n gwasanaethu Duw yn y nefoedd. Mae Duw yn aml yn anfon angylion i rannu neges gyda phobl.

## Apostol

= 'cynrychiolydd personol' ([beibl.net](http://beibl.net)) Un sy'n cael ei anfon allan i gynrychioli ei frenin neu ei wlad. Llysgennad. Dyma'r teitl gafodd i roi i ddisgyblion agosaf Iesu, ac mae Paul ac unigolion eraill (fel Barnabas, Epaffroditws a Jwnia) yn cael eu galw yn apostolion hefyd.

## Aramaeg

Iaith oedd yn perthyn yn agos i'r Hebraeg. Roedd yr Aramaeg yn cael ei siarad ar hyd a lled y Dwyrain Canol ers tua 750 cc. Hi oedd iaith swyddogol Ymerodraeth Persia (550-330 cc). Erbyn cyfnod y Testament Newydd yr iaith Roeg oedd y brif iaith ryngwladol, Aramaeg yn dal yn gyffredin, a'r Hebraeg yn iaith addysg a chrefydd a'r iaith y byddai Iesu wedi dysgu drwyddi. Cred llawer o ysgolheigion fod Iesu yn deirieithog.

## Arch yr Ymrwymiad

= 'Arch y Cyfamod' (BCN). Bocs neu gist hardd wedi ei gorchuddio ag aur. Y tu mewn iddi cedwid y Deg Gorchymyn (ar y llechi roddodd Duw i Moses), jar o'r manna, a ffon Aaron. Roedd dau gerwb hardd ar y caead. Roedd yr Arch yn cynrychioli presenoldeb Duw gyda'i bobl. Cafodd ei chadw yn y Lle Mwyaf Sanctaidd yn y Tabernacl, ac yn nes ymlaen yn y Deml.

## Archoffeiriad

Prif arweinydd crefyddol yr Iddewon. Yn yr Hen Destament, fe oedd yn cyflwyno'r aberthau pwysicaf i Dduw ar ran y bobl. Yn y Testament Newydd, fe oedd pennaeth y Sanhedrin (yr Uchel Lys Iddewig) ac yn arweinydd gwleidyddol dylanwadol.

## Arglwydd

Pan mae'r gair Arglwydd wedi ei ysgrifennu mewn priflythrennau yn y Beibl, mae'n cyfieithu enw sanctaidd Duw Israel, sef Iahwe. Dyma'r enw rannodd Duw gyda Moses (Exodus 3:14). Mae'r Iddewon yn ei ystyried yn air rhy sanctaidd i'w ynganu, ac felly bob tro mae'r gair yn ymddangos yn yr Ysgrifau Sanctaidd Hebraeg (sef ein Hen



# Mynegair

Mae'r Mynegair byr yma wedi ei lunio i helpu'r darlennydd i ddod o hyd i adnodau penodol, neu i'w helpu i fyfyrto ar bwnc neu thema arbennig yn y Beibl. Mae'r adnodau sydd wedi eu cynnwys ynddo wedi cael eu dewis yn ofalus. Ceisiwyd cynnwys y geiriau a'r adnodau hynny fyddai pobl fwyaf tebygol o chwilio amdany'n nhw. Doedd dim bwriad cynnwys pob adnod lle mae'r gair dan sylw yn ymddangos.

Yn hytrach, dewiswyd amrywiaeth o gyfeiriadau fyddai'n taflu peth goleuni ar y defnydd o'r gair ei hun neu bwnc sy'n gysylltiedig â'r gair.

Mae gwahanol ffurfiau o air penodol (e.e. unigol a lluosog, gwrywaidd a benywaidd; enw neu ferf) wedi eu rhestru gyda'i gilydd, a ffurf fwyaf amlwg y gair yn cael ei ddefnyddio fel pennawd. Mae yna hefyd groesgyfeiriadau i eiriau ac ymadroddion cysylltiedig.

Wrth edrych ar unrhyw adnod mae'n bwysig edrych ar y cyd-destun i'w deall yn iawn. Dylid cofio nad oedd rhifau adnodau a phenodau wedi eu hychwanegu at lyfrau'r Beibl tan y 13eg ganrif. Maen nhw'n ddefnyddiol i'n helpu i ffeindio'n ffordd o gwmpas y Beibl, ond ni ddylid eu hynysu wrth eu dehongli.

Mae'n hawdd iawn cam-ddeall a cham-ddehongli adnod pan mae'n cael ei darllen allan o'i chyd-destun.

## A

### aberth

See Also *allor, gwaed, offrrwm*

Gen	22:8	fod oen gynnon ni i'w <b>aberthu</b>
Ex	12:27	dwedwch wrthyn nhw, ' <b>Aberth</b> y
1 Sam	15:22	<b>Aberth</b> ac offrrwm i'w losgi
Salm	40:6	<b>aberth</b> ac offrrwm rwyf ti eisiau
Es	1:11	ydy pwynt eich holl <b>aberthau</b>
Dan	11:31	Bydd yn stopio'r <b>aberthu</b>
Hos	6:6	nid <b>aberthau!</b> Nabod Duw
Mc	12:33	hyn yn bwysicach na'r <b>aberthau</b>
In	1:5	<b>Mae'r</b> golau'n dal i ddisgleirio
Act	15:29	<b>aberthu</b> i eilun-dduwiau
Rhuf	12:1	eich hunain iddo yn <b>aberth</b>
Eff	5:2	<b>aberth</b> oedd yn arogl'i'n hyfryd i
Heb	9:26	drwy ei <b>aberthu</b> ei hun.
	10:1	mae'r un <b>aberthau</b> yn gorfod
1 Ped	2:5	<b>aberthau</b> ysbrydol i Dduw.

### achub

See Also *mabwysiadu, maddau, rhyddid*

Ex	14:13	ARGLWYDD yn eich <b>achub</b> chi.
Salm	37:39	<b>achub</b> y rhai sy'n byw'n gywir
	55:16	yr ARGLWYDD yn fy <b>achub</b> i.
Es	43:11	does neb ond fi yn gallu <b>achub</b> .
	45:20	sydd ddim yn gallu <b>achub!</b>
	59:1	ddim yn rhy wan i <b>achub</b>
Jer	17:14	dim ond ti sy'n gallu fy <b>achub</b> .
Hos	13:4	Fi ydy'r unig un sy'n <b>achub!</b>
Jl	2:32	ARGLWYDD yn cael ei <b>achub</b> .
Mth	10:22	diwedd un yn cael eu <b>hachub</b> .
	27:40	<b>Achub</b> dy hun! Tyrd i lawr o'r
Lc	19:10	i'w <b>hachub</b> nhw."
Act	4:12	Fe ydy'r unig un sy'n <b>achub!</b>
	16:31	dyna sut mae cael dy <b>achub</b> – ti
Rhuf	1:16	gweithio i <b>achub</b> pawb sy'n
	10:10	a chei dy <b>achub</b> wrth gyffesu
1 Cor	15:2	da sy'n eich <b>achub</b> chi
Eff	1:13	da sy'n eich <b>achub</b> chi.

### » achub

Eff	2:8	eich <b>achub</b> chi wrth i chi gredu.
1 Tim	1:15	<b>achub</b> pechaduriaid – a fi ydy'r
	2:4	<b>hachub</b> a dod i wybod y gwir.
2 Tim	3:15	ti i ddeall sut i gael dy <b>achub</b>
Tit	3:5	<b>hachub</b> ni am ein bod ni'n dda
Heb	2:3	yma am Dduw yn <b>achub!</b>

### adeiladu

Gen	11:4	i ni <b>adeiladu</b> dinas fawr i ni'n
2 Cron	2:1	yn gorchymyn <b>adeiladu</b> teml i
Esra	1:2	e wedi gorchymyn i mi <b>adeiladu</b>
Salm	127:1	ddim yn <b>adeiladu</b> r'r tŷ
Es	58:12	ac yn <b>adeiladu</b> ar yr hen sylfeini
Jer	17:14	yn <b>adeiladu</b> ac yn plannu."
Mth	7:24	<b>adeiladu</b> ei dŷ ar graig solet.
	16:18	i <b>adeiladu</b> fy eglwys arni hi
1 Cor	8:1	ar y llaw arall, yn <b>adeiladu</b> .
Col	2:7	bywyd wedi'i <b>adeiladu</b> arno
Heb	3:4	cael ei <b>adeiladu</b> gan rywun
1 Ped	2:5	chi i <b>adeiladu</b> ei 'deml' ysbrydol.
Jwd	1:20	Daliwch ati i <b>adeiladu</b> eich

### addfwyn

See Also *gostyngedig*

Sech	9:9	Mae'n <b>addfwyn</b> ac yn
Mth	5:5	Mae'r rhai <b>addfwyn</b> sy'n cael
	11:29	i'n <b>addfwyn</b> ac yn ostyngedig
	21:5	Mae'n <b>addfwyn</b> ac yn
Eff	4:2	ac <b>addfwyn</b> bob amser
1 Tim	6:11	ati drwy bopeth ac yn <b>addfwyn</b> .
1 Ped	3:4	sef ysbryd <b>addfwyn</b> a thawel.

### addo

See Also *ymrwymiad*

Deut	6:18	y wlad dda wnaeth Duw <b>addo</b>
Salm	24:4	ddim yn twyllo neu'n <b>addo</b>
Act	2:39	Mae Duw wedi <b>addo</b>
Rhuf	4:16	<b>addo!</b> Rhodd Duw ydy'r cwbl!
2 Cor	1:20	mae Duw wedi'i <b>addo</b> yn wir!